Thomas Carlyle 1795–1881

Awdur a hanesydd

Ganwyd Thomas Carlyle mewn amgylchiadau digon cyffredin ar 4 Rhagfyr 1795 mewn pentref yn Swydd Dumfries, yr Alban, o'r enw Ecclefechan. Ef oedd mab hynaf James a Margaret Carlyle a gweithiai ei dad fel saer maen. Mynychent yr eglwys Bresbyteraidd leol. Yn gynnar dysgodd ddarllen gyda'i fam a rhifyddeg dan arweiniad ei dad ac aeth i ysgol fechan yn y pentref pan oedd yn chwech oed. Yna, ym 1806 – pan nad oedd ond deg oed – aeth i Academi Annan, oedd rhyw chwe milltir i ffwrdd, lle y dysgodd Ffrangeg, Lladin, rhifyddeg, algebra a daearyddiaeth. Dechreuodd ddarllen llyfrau gydag awch anghyffredin ac ym 1809 fe'i derbyniwyd fel myfyriwr ym Mhrifysgol Caeredin. Cymerodd dri diwrnod i gerdded yr holl ffordd yno. Erbyn yr ail ddiwrnod roedd Carlyle wedi teithio ymhellach o'i gynefin nag y gwnaeth ei dad erioed trwy gydol ei oes. Yno, yn y coleg, datblygodd ddiddordeb mawr mewn mathemateg. Ym 1813 dechreuodd ddilyn cwrs diwinyddol gyda'r bwriad o fynd i'r weinidogaeth ond nid felly y bu. Gadawodd y Brifysgol heb radd a mynd yn athro mathemateg yn Academi Annan ar gyflog o £70 y flwyddyn. Ni allai setlo yno ac aeth i ddysgu yn Kirkcaldy am gyfnod byr cyn dychwelyd ym 1818 i Gaeredin lle y dechreuodd lenydda. Ysgrifennai i nifer o gylchgronau ac ef oedd un o'r rhai cyntaf i ddehongli gweithiau Goethe, y bardd Almaenig.

Cyhoeddodd gyfieithiad o waith Goethe sef *Wilhelm Meister* (1824) trwy wasg yng Nghaeredin. Ym 1826 priododd Jane Welsh a symudodd i fyw i ardal anghysbell a gwledig Craigenputtoch. Yno bu'n darllen yn eang ac yn cyfansoddi gweithiau llenyddol. Ysgrifennai erthyglau ar Voltaire a Novalis i'r *Foreign Review* ac ar Burns a Tasso i'r *Edinburgh Review*. Nid oedd am aros yno weddill ei oes oherwydd roedd ei fryd ar symud i Lundain a gwnaeth hynny ym 1834. Yn Llundain chwiliodd yn ddygn am gyhoeddwr i'w waith *Sartor Resartus* ond nid oedd neb yn barod i'w argraffu. Ymddangosodd yn hytrach fel cyfres mewn misolyn ac fe gafodd adolygiadau gwael. Er hynny, pydrodd arni i gyfansoddi ac yn raddol fe drodd y rhod. Daeth ei gartref yn Cheyne Row, Chelsea, yn

gyrchfan llenorion a daethpwyd i'w ystyried yn gymeriad arbennig. Treuliodd dair blynedd yn ysgrifennu llyfr swmpus ar y Chwyldro Ffrengig ac fe roddodd yr unig gopi i'w fenthyg i'w gymydog John Stuart Mill. Gwaetha'r modd llosgwyd y llawysgrif trwy ddamwain gan un o'r morynion. Bu bron i Carlyle dorri ei galon wrth iddo fynd ati i ailysgrifennu'r holl waith. Wedi ei gwblhau a'i argraffu cafodd y llyfr dderbyniad gwresog ac aeth ati yn ddiymdroi i ysgrifennu cofiant i Oliver Cromwell sef *The Life and Letters of Oliver Cromwell* (1845), *The Life of John Sterling* (1851) a nifer o gyfrolau hanesyddol eraill. Yr enwocaf o bosibl yw ei waith ar Ffredric Fawr o Brwsia (1865) a gymerodd dair blynedd ar ddeg i'w ysgrifennu. Fel hanesydd yr oedd ganddo amynedd diderfyn i chwilio am ddeunyddiau a gallu disgrifiadol ardderchog. Yn ei holl weithiau ceisiai ganfod a mynegi'r gwirionedd ac yr oedd yn gas ganddo'r ffug a'r gau. Bu hefyd yn darlithio yn wythnosol ar lenyddiaeth Almaenig ac Ewropeaidd. Oherwydd ansicrwydd y byd llenyddol darlithio oedd yr unig ffynhonnell ariannol sicr oedd ganddo.

Anodd yw diffinio ei ddaliadau crefyddol. Ysgrifennai gyda pharch mawr tuag at y Beibl ac y mae ei gyfeiriadau at Iesu yn llawn o dynerwch a gwyleidd-dra ond fe ymddengys ei fod yn ansicr ynglŷn â'i ffydd. Eto yn y *Latter-Day Pamphlets* (1850) gresynai'n fawr fod yr egwyddorion Presbyteraidd yn yr Alban yn cael eu disodli gan agweddau gwrth-ddiwygiadol a hyrwyddai fateroldeb. Bu farw ar 5 Chwefror 1881 yn Chelsea, Llundain, ac fe gladdwyd ei gorff ym mynwent Ecclefechan.